CYSUR: Bwrdd Diogelu Plant Canolbarth a Gorllewin Cymru

Cylch Gorchwyl yr Is-Grŵp Adolygiad Ymarfer Plant

CYSUR yw enw'r Bwrdd Diogelu Plant Rhanbarthol ar gyfer Canolbarth a Gorllewin Cymru ac mae'n gwasanaethu Ceredigion, Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro a Phowys.

Diben:

Diben Is-Grŵp Adolygiad Ymarfer Plant CYSUR yw:

- Dechrau, datblygu a goruchwylio Adolygiadau Ymarfer Plant yn unol â Chanllawiau Llywodraeth Cymru ar Adolygiadau Ymarfer Plant – '*Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl: Cyfrol 2 – Adolygiadau Ymarfer Plant*' o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant [Cymru] 2014,
- Monitro a dilyn hynt achosion o Ymateb Gweithdrefnol i Farwolaethau Annisgwyl mewn Plentyndod (PRUDiC) i oruchwylio proses PRUDiC yn gadarn er mwyn helpu i nodi unrhyw themâu a thueddiadau rhanbarthol a all ddod i'r amlwg a chefnogi ymarfer cyson,
- Bod yn gyswllt â'r broses Adolygu Dynladdiadau Domestig er mwyn sicrhau bod cyfleoedd i gynnal digwyddiadau dysgu ar y cyd yn cael eu hystyried a bod argymhellion ar gyfer dysgu ymarfer yn cael eu rhannu;
- Nodi unrhyw themâu yn ymwneud ag ansawdd sy'n dod i'r amlwg a thynnu sylw Bwrdd Gweithredol CYSUR a grwpiau rhanbarthol eraill atynt, gan gynnwys yr Is-Grŵp Hyfforddiant Rhanbarthol a'r Is-Grŵp Polisïau a Gweithdrefnau.

Amcanion:

- Hyrwyddo safonau uchel o ran gwaith diogelu
- Cefnogi dysgu proffesiynol a sefydliadol a hybu gwelliant mewn gwaith amddiffyn a diogelu plant rhyngasiantaethol yn y dyfodol
- Meithrin diwylliant o wella a dysgu parhaus
- Nodi themâu mewn gwahanol wasanaethau a gweithredu arnynt
- Cefnogi Fframwaith Sicrhau Ansawdd a Pherfformiad Rhanbarthol y Bwrdd drwy nodi'r themâu hyn
- Rhoi cyfeiriad i archwiliadau lleol mewn perthynas â themâu penodol i'r broses archwilio ganolbwyntio arnynt
- Ystyried themâu sy'n seiliedig ar faterion yn ymwneud ag ansawdd ymarfer ac adrodd yn ôl i Fwrdd Gweithredol CYSUR
- Sicrhau cysondeb o ran polisïau ac ymarfer ym mhob un o'r pedwar awdurdod lleol.

Aelodaeth:

Caiff y Grŵp ei gadeirio gan uwch gynrychiolydd enwebedig o Fwrdd Gweithredol CYSUR a'i gefnogi gan yr Uned Fusnes. Bydd yr aelodau'n cynnwys cynrychiolaeth briodol o bob un o asiantaethau partner CYSUR. Bydd unrhyw gyngor cyfreithiol y bydd angen ei roi i'r Grŵp yn cael ei nodi a'i geisio fesul achos unigol. Bydd y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd yn aelodau o ddau sefydliad statudol gwahanol.

Yr aelodau ym mis Mawrth 2018:

Enw	**Rôl**
Karen Toohey (Cadeirydd)	Nyrs Ddynodedig, Tîm Diogelu Cenedlaethol (GIG Cymru), Iechyd Cyhoeddus Cymru
Anthony Maynard	Pennaeth Gwasanaethau Plant, Cyngor Sir Penfro
Stefan Smith	Pennaeth Gwasanaethau Plant, Cyngor Sir Gâr
Elfed Hopkins	Pennaeth Gwasanaethau Plant, Cyngor Sir Ceredigion
David Johnston	Pennaeth Gwasanaethau Plant, Cyngor Sir Powys
Ifan Charles	Ditectif Brif Arolygydd, Diogelu Pobl Agored i Niwed, Heddlu Dyfed Powys
Sonia Mason	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Diogelu (Nyrs Benodol), Bwrdd Iechyd Addysgu Powys
Nicola Edwards	Pennaeth Diogelu Plant ac Oedolion, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Siân Howys	Arweinydd Diogelu Plant, Cyngor Sir Ceredigion
Sharon Powell	Arweinydd Diogelu Plant, Cyngor Sir Powys
Rebecca Copp	Arweinydd Diogelu Plant, Cyngor Sir Gâr
Diane Beacroft	Arweinydd Diogelu Integredig, Cyngor Sir Penfro
Avril Bracey	Cadeirydd yr Is-Grŵp Adolygiad Ymarfer Oedolion
Deanne Martin	Pennaeth Uned Datblygu Lleol Dyfed Powys, Cwmni Adsefydlu Cymunedol y Gwasanaeth Prawf
Chris Harley	Pennaeth Uned Datblygu Lleol Dyfed Powys, y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol
Alastair Birch	Cynrychiolydd Addysg
Dr Velupillai Vipulendran	Meddyg Penodol, Amddiffyn Plant, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Dr Ingrid Prosser	Meddyg Penodol, Amddiffyn Plant, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys
Julie Breckon	Rheolwr Busnes Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru

Amlder cyfarfodydd:

Bydd y cyfarfodydd yn cael eu hamserlennu bob chwarter a'u cylchdroi'n rhanbarthol. Lle y bo modd, cynhelir y cyfarfodydd ar yr un diwrnod ac yn yr un lleoliad â'r Is-Grŵp Adolygiad Ymarfer Plant rhanbarthol. Bydd cyfleusterau fideogynadledda yn cael eu cynnig mewn lleoliadau amgen yn y rhanbarth.

Llywodraethu:

Bydd Is-Grŵp Adolygiad Ymarfer Plant CYSUR yn uniongyrchol atebol i Fwrdd Gweithredol CYSUR. Er bod y grŵp yn cael ei lywodraethu gan Fwrdd Gweithredol CYSUR ac yn atebol iddo, bydd yn datblygu ac yn meithrin llwybrau a dulliau clir ar gyfer

cyfathrebu â'r Is-Grŵp Hyfforddiant Rhanbarthol a'r Is-Grŵp Polisïau a Gweithdrefnau mewn perthynas ag unrhyw faterion yn ymwneud ag ymarfer ac anghenion dysgu a nodir.

Swyddogaethau:

1. Gweithio o fewn y fframwaith a amlinellir yn 'Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl: Cyfrol 2 – Adolygiadau Ymarfer Plant' o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant [Cymru] 2014.

2. Derbyn atgyfeiriadau ac ystyried achosion yn erbyn y meini prawf a nodir yn y canllawiau uchod ar Adolygiadau Ymarfer Plant a gwneud argymhellion priodol i Gadeirydd Bwrdd Gweithredol CYSUR mewn perthynas â'r canlynol:

    a. p'un a yw achos yn bodloni'r meini prawf ar gyfer Adolygiad Ymarfer Plant cryno neu estynedig ac a yw'n debygol y bydd cyfle i ddysgu gwersi a gwella ymarfer diogelu plant;
    b. os nad yw achos yn bodloni'r meini prawf ar gyfer Adolygiad Ymarfer Plant cryno neu estynedig ac na nodwyd cyfle i ddysgu gwersi, p'un a fyddai Fforwm Proffesiynol Amlasiantaethol yn fuddiol a chymesur i nodi canlyniadau dysgu posibl.

3. Os yw achos yn bodloni'r meini prawf ar gyfer Adolygiad Ymarfer Plant cryno neu estynedig, sefydlu panel adolygu amlasiantaethol i gydgysylltu'r adolygiad.

4. Bydd Cadeirydd yr Is-Grŵp Adolygiad Ymarfer Plant yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Fwrdd Gweithredol CYSUR yn rheolaidd mewn perthynas â chanlyniad unrhyw atgyfeiriadau newydd a hynt unrhyw Adolygiadau Ymarfer Plant sy'n mynd rhagddynt ynghyd â'r amserlen ar gyfer eu cwblhau.

5. Llunio a monitro cynlluniau gweithredu rhanbarthol sy'n deillio o argymhellion a phwyntiau dysgu o Adolygiadau Ymarfer Plant unigol.

6. Nodi themâu cyffredin mewn perthynas ag ansawdd ymarfer, a thynnu sylw atynt. Bydd materion strategol yn cael eu rhannu â Bwrdd Gweithredol CYSUR.

7. Awgrymu atebion i fynd i'r afael â themâu a nodwyd y gellir eu rhannu â Bwrdd Gweithredol CYSUR a grwpiau rhanbarthol eraill, gan gynnwys yr Is-Grŵp Hyfforddiant Rhanbarthol a'r Is-Grŵp Polisïau a Gweithdrefnau.

8. Ystyried unrhyw weithgarwch a nodwyd ledled rhanbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru a gwneud argymhellion mewn perthynas ag unrhyw gam gweithredu neu ganlyniadau sydd eu hangen.

9. Gellir trefnu cyfarfodydd eithriadol yn ychwanegol at y calendr cyfarfodydd arferol, pan fo hynny'n briodol.

Atodiadau: **Tudalen**

- Atodiad 1 – Strwythur Bwrdd ac Is-Grŵp Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru 6
- Atodiad 2 – Proses Adolygiad Ymarfer Plant CYSUR 7
- Atodiad 3 – Siart Llif Adolygiad Ymarfer Plant (wedi'i chodi'n uniongyrchol o Ganllawiau 2016) 8
- Atodiad 4 – Atgyfeiriad i'w ystyried yn yr Is-Grŵp Adolygiad Ymarfer Plant (templed) 9-11
- Atodiad 5 – Argymhelliad gan yr Is-Grŵp i Gadeirydd CYSUR (templed) 12-13
- Atodiad 6 – Penderfyniad Cadeirydd CYSUR ar ran y Bwrdd Gweithredol (templed) 14
- Atodiad 7 – Cylch Gorchwyl Adolygiad Ymarfer Plant (templed) 15-17
- Atodiad 8 – Amlinelliad o Adolygiad Ymarfer Plant (templed) 18-23

D.S: Mae pob atodiad yn seiliedig ar ganllawiau Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd yn 'Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl: Cyfrol 2 – Adolygiadau Ymarfer Plant' o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant [Cymru] 2014

Atodiad 1


Byrddau Gweithredol Diogelu Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru
Is-Grwp Polisïau a Gweithdrefnau
Yn arwain ar flaenoriaethu, datblygu ac adolygu polisïau a gweithdrefnau
Yn trosi dysgu beirniadol yn ganllaw ar ymarfer
Is-Grwpiau AYP (CPR) ac AYO (APR)
Yn goruchwylio ac yn nodi AYO (APR) / AYP (CPRs) cryno ac estynedig
Yn monitro gweithredu'r cynllun gweithredu
Is-Grwp Hyfforddiant
Yn nodi ac yn cefnogi hyfforddiant rhanbarthol pwrpasol
Yn cefnogi ac yn datblygu Adolygwyr AYO (APR) /AYP (CPR) enwebedig
Yn cysylltu â rheolwyr Hyfforddiant ALI
Yn lledaenu canlyniadau dysgu i hyfforddiant
Grwpiau Gweithredol Lleol (GGLl)
Mae grwpiau Plant ac Oedolion yn coladu gwybodaeth am:
Ymarfer/ grwpiau gwybodaeth / diffygion
Bylchau / diffygion mewn polisïau a gweithdrefnau
Canlyniad FfPAA (MAPFs)
Sicrhau Ansawdd a Throsglwyddo Pryderon i lefel uwch o ran cartrefi gofal
Canlyniad digwyddiadau Dysgu Beirniadol Cyfiawnder Ieuenctid
Canlyniad Adolygiadau Dynladdiadau Domestig
Gwybodaeth comisiynu / data

Atodiad 2 **Proses Atgyfeirio am Adolygiad Ymarfer Plant CYSUR**



Atodiad 3

Siart Llif Adolygiad Ymarfer



Atodiad 4

Atgyfeiriad at Is-Grŵp Adolygiad Ymarfer Plant CYSUR i ystyried cynnal Adolygiad Ymarfer Plant

Cyf: CYSUR */2017 (*********)

Llythrennau Cyntaf Enw'r Gwrthrych:Dyddiad Geni: Dyddiad Marw/Digwyddiad:

Gan: Dyddiad trafod yn y Grŵp Gweithredol
Lleol:

Dyddiad yr Is-Grŵp Adolygiad Ymarfer Plant:

Amlinelliad cryno o'r achos/digwyddiad Nodwch statws cyfreithiol y plentyn/plant cyn y digwyddiad ac unrhyw gamau diogelu adferol a gymerwyd ar unwaith gan asiantaethau perthnasol.
Sail Resymegol dros y Cais.

Unrhyw wybodaeth berthnasol arall

Asiantaethau sy'n gysylltiedig â'r achos *(E.e. Gwasanaethau Plant, yr Heddlu, Addysg, Gwasanaeth Prawf, Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid, Bwrdd Iechyd, Awdurdod Lleol, Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Arall.)*

Canllawiau Statudol

Mae'r fframwaith Adolygiad Ymarfer Plant yn seiliedig ar gyfres o egwyddorion i arwain Byrddau, eu hasiantaethau partner a phartneriaid cymunedol eraill yn eu cyfrifoldebau am ddysgu, adolygu a gwella polisïau ac ymarfer lleol ym maes diogelu plant.

Meini prawf ar gyfer adolygiad cryno

6.1. Rhaid i Fwrdd gynnal adolygiad ymarfer plant cryno9 yn unrhyw un o'r achosion canlynol yn ardal y Bwrdd lle gwyddys neu lle amheuir bod achos o gam-drin neu esgeuluso plentyn wedi digwydd a lle mae'r plentyn –

- wedi marw; neu
- wedi cael anaf a allai beryglu ei fywyd; neu
- wedi dioddef nam difrifol a pharhaol i'w iechyd neu'i ddatblygiad; **ac**

nad oedd y plentyn ar y gofrestr amddiffyn plant nac yn blentyn a oedd yn derbyn gofal ar unrhyw ddyddiad yn ystod y 6 mis cyn –

- dyddiad y digwyddiad y cyfeirir ato uchod; neu
- y dyddiad y nododd awdurdod lleol neu bartner perthnasol10 fod plentyn wedi dioddef nam difrifol a pharhaol i'w iechyd a'i ddatblygiad.

Meini prawf ar gyfer adolygiad estynedig

7.1 Rhaid i Fwrdd gynnal adolygiad ymarfer plant estynedig14 yn unrhyw un o'r achosion canlynol yn ardal y Bwrdd lle gwyddys neu lle amheuir bod achos o gam- drin neu esgeuluso plentyn wedi digwydd a lle mae'r plentyn –

- wedi marw; neu
- wedi cael anaf a allai beryglu ei fywyd; neu
- wedi dioddef nam difrifol a pharhaol i'w iechyd neu'i ddatblygiad; **ac**

roedd y plentyn ar y gofrestr amddiffyn plant a/neu roedd yn blentyn a oedd yn derbyn gofal (gan gynnwys plentyn dan 18 oed a oedd wedi gadael gofal) ar unrhyw ddyddiad yn ystod y 6 mis cyn –

- dyddiad y digwyddiad y cyfeirir ato uchod; neu
- y dyddiad y nododd awdurdod lleol neu bartner perthnasol15 fod plentyn wedi dioddef nam difrifol a pharhaol i'w iechyd a'i ddatblygiad.

Ar sail y meini prawf uchod, cyflwynwyd yr atgyfeiriad hwn at yr Is-Grŵp Adolygiad Ymarfer Plant i'w ystyried.

I'w gwblhau gan yr asiantaeth sy'n atgyfeirio:

Enw: Dynodiad:

Manylion cyswllt:

Atodiad 5

Argymhelliad i Gadeirydd CYSUR: Bwrdd Diogelu Plant Canolbarth a Gorllewin Cymru gan Is-Grŵp Adolygiad Ymarfer Plant CYSUR

Gan: xxxxx, Cadeirydd yr Is-Grŵp Adolygiad Ymarfer Plant

At: xxxxx, Cadeirydd CYSUR: Bwrdd Gweithredol Diogelu Plant

Par:

Dyddiad yr atgyfeiriad at yr Is-Grŵp Adolygiad Ymarfer Plant:

Amlinelliad cryno o'r achos

Argymhelliad	
Mae'r Is-Grŵp Adolygiad Ymarfer Plant wedi ystyried yr achos hwn ac mae'n argymell ei fod yn bodloni'r meini prawf ar gyfer:	
Adolygiad cryno	☐
Adolygiad estynedig	☐
Os na chaiff y meini prawf eu bodloni ar gyfer yr adolygiadau uchod, pa broses adolygu amgen a gaiff ei chynnal:	
Fforwm proffesiynol amlasiantaethol	☐

Penderfyniad	
Unfrydol	☐
Mwyafrif	☐

Sail Resymegol dros y Penderfyniad/Argymhelliad

Atodiad 6

Penderfyniad Cadeirydd Bwrdd Diogelu Plant Rhanbarthol CYSUR gan Is-Grŵp Adolygiad Ymarfer Plant CYSUR

Par: CYSUR */** ( )**

Cytunaf â'r argymhelliad	☐
Cytunaf â'r argymhelliad yn amodol ar y newidiadau canlynol:-	☐
Anghytunaf â'r argymhelliad *Os 'anghytunaf', y rhesymau pam a'r camau gweithredu a gynigir:-*	☐

Llofnod:

Teitl: Cadeirydd

Dyddiad:

Rhif Ffôn:

Mewn trafodaeth â Chadeirydd yr Is-Grŵp

Dyddiad cyflwyno gwybodaeth i Fwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru ……..……

Dyddiad anfon gwybodaeth i Lywodraeth Cymru ……

Atodiad 7

Cylch Gorchwyl ar gyfer Adolygiad Ymarfer Plant Cryno/Estynedig

CYSUR */**** (Ardal a Math o Adolygiad)

- **Arweinydd Diogelu Enwebedig –**
- **Cadeirydd y Panel Adolygu –**
- **Adolygydd/Adolygwyr Annibynnol –**

Tasgau craidd:

- Pennu p'un a yw'r penderfyniadau a'r camau gweithredu yn yr achos yn cydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau gwasanaethau penodol a'r Bwrdd.
- Archwilio effeithiolrwydd gwaith rhyngasiantaethol a darpariaeth gwasanaethau i'r plentyn a'r teulu.
- Pennu i ba raddau roedd y penderfyniadau a'r camau gweithredu er lles pennaf y plentyn ac yn canolbwyntio ar ganlyniadau.
- Ceisio cyfraniadau at yr adolygiad gan aelodau priodol o'r teulu a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am agweddau allweddol ar gynnydd.
- Ystyried unrhyw ymchwiliadau neu achosion a gynhelir ar yr un pryd â'r achos hwn sy'n gysylltiedig ag ef.
- Cynnal digwyddiad dysgu amlasiantaethol ar gyfer ymarferwyr a nodi'r adnoddau sydd eu hangen.

Ar gyfer Adolygiadau Estynedig YN UNIG. Yn ogystal â'r broses adolygu, ystyried y canlynol yn benodol:

- P'un a oedd hanes neu wybodaeth berthnasol flaenorol am y plentyn a/neu aelodau o'r teulu yn hysbys ac wedi'i hystyried wrth i weithwyr proffesiynol asesu, cynllunio a gwneud penderfyniadau mewn perthynas â'r plentyn, y teulu a'u hamgylchiadau. Sut y cyfrannodd y wybodaeth honno at y canlyniad i'r plentyn?
- P'un a oedd y cynllun amddiffyn plentyn (a/neu'r cynllun plentyn sy'n derbyn gofal neu'r cynllun llwybr) yn gadarn ac yn briodol ar gyfer y plentyn hwnnw a'i amgylchiadau.
- Effeithiolrwydd y gwaith cynllunio pontio (fel y bo'n briodol)
- P'un a gafodd y cynllun ei roi ar waith, ei fonitro a'i adolygu'n effeithiol. A wnaeth pob asiantaeth gyfrannu'n briodol at y gwaith o ddatblygu a chyflawni'r cynllun amlasiantaethol?
- Pa agweddau ar y cynllun a weithiodd yn dda, beth na weithiodd yn dda a pham? I ba raddau y cafodd asiantaethau eu dwyn i gyfrif mewn perthynas ag effeithiolrwydd y cynllun, gan gynnwys cynnydd yn erbyn canlyniadau y cytunwyd arnynt ar gyfer y plentyn. P'un a gafodd y protocol ar gyfer datrys anghydfod ei ddefnyddio.
- P'un a gafodd priod ddyletswyddau statudol yr asiantaethau a oedd yn gweithio gyda'r plentyn a'r teulu eu cyflawni.
- P'un a oedd rhwystrau neu anawsterau yn yr achos hwn a rwystrodd asiantaethau rhag cyflawni eu dyletswyddau (dylai hyn gynnwys ystyried materion sefydliadol a materion cyd-destunol eraill).

Tasgau penodol y Panel Adolygu:

- Nodi a chomisiynu adolygydd/adolygwyr i weithio gyda'r *Panel Adolygu* yn unol â'r canllawiau ar adolygiadau cryno ac estynedig.
- Cytuno ar yr amserlen.
- Nodi asiantaethau, gwasanaethau perthnasol a gweithwyr proffesiynol i gyfrannu at yr adolygiad, llunio amserlen a chrynodeb cychwynnol o'r achos a nodi unrhyw gamau gweithredu a gymerwyd ar unwaith.
- Cwblhau gwybodaeth ychwanegol mewn perthynas ag Adolygwyr Annibynnol ac aelodau'r Panel
- Llunio amserlen gyfun, dadansoddiad cychwynnol a chanlyniadau dysgu.
- Ar y cyd â'r adolygydd/adolygwyr, cynllunio digwyddiad dysgu i ymarferwyr, gan gynnwys nodi'r bobl a fydd yn bresennol a'r trefniadau ar gyfer eu paratoi a'u cefnogi cyn ac ar ôl y digwyddiad, a'r trefniadau ar gyfer adborth.
- Ar y cyd â'r adolygydd/adolygwyr, cynllunio'r trefniadau ar gyfer cysylltu â'r unigolyn ac aelodau o'r teulu cyn y digwyddiad.
- Derbyn ac ystyried yr adroddiad ar yr Adolygiad Ymarfer Plant drafft er mwyn sicrhau bod y cylch gorchwyl wedi'i fodloni a bod unrhyw beth ychwanegol y mae angen ei ddysgu wedi'i nodi a'i gynnwys yn yr adroddiad terfynol.
- Cytuno ar gasgliadau'r adolygiad a chynllun gweithredu amlinellol, a gwneud trefniadau ar gyfer eu cyflwyno i'r Is-Grŵp Adolygiad Ymarfer Plant eu hystyried a chytuno arnynt.
- Cynllunio trefniadau ar gyfer rhoi adborth i aelodau o'r teulu a rhannu cynnwys yr adroddiad ar ôl i'r adolygiad gael ei gwblhau a chyn ei gyhoeddi.
- Bydd aelodau'r *Panel Adolygu* yn glynu wrth egwyddorion Deddf Diogelu Data 1998 wrth drin gwybodaeth bersonol fel rhan o broses yr Adolygiad Ymarfer Plant (gweler yr adran ar Rannu Gwybodaeth a Chyfrinachedd).

Tasgau penodol yr Is-Grŵp Adolygiad Ymarfer Plant:

- Cytuno ar gylch gorchwyl drafft ar gyfer pob achos a argymhellir ar gyfer Adolygiad Ymarfer Plant, a'i gymeradwyo
- Cytuno ar gasgliadau'r adroddiad drafft a chynllun gweithredu amlinellol, a gwneud trefniadau ar gyfer eu cyflwyno i'r Bwrdd eu hystyried a chytuno arnynt.
- Monitro cynlluniau gweithredu Adolygiadau Ymarfer Plant er mwyn sicrhau bod yr holl argymhellion yn cael eu cyflawni ar ran y Bwrdd

Tasgau penodol Bwrdd Diogelu Plant CYSUR:

- Bydd y Bwrdd yn rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru bod Adolygiad Ymarfer Plant yn cael ei gynnal.
- Bydd yn cadw at yr amserlenni cwblhau, yn unol â'r canllawiau statudol.
- Bydd yn derbyn yr adroddiad terfynol ar yr Adolygiad Ymarfer Plant a'r cynllun gweithredu ac yn eu cymeradwyo'n ffurfiol.
- Ystyried unrhyw bwyntiau dysgu gan y Bwrdd, a chytuno arnynt, i'w hymgorffori yn yr adroddiad terfynol neu'r cynllun gweithredu.
- Bydd y Bwrdd yn anfon y ddogfen derfynol i asiantaethau perthnasol er mwyn iddynt wneud sylwadau arni cyn ei chymeradwyo a'i chyflwyno i Lywodraeth Cymru.
- Cadarnhau'r trefniadau i Is-Grŵp yr Adolygiad reoli'r cynllun gweithredu amlasiantaethol, gan gynnwys sut y bydd y gwelliannau i wasanaethau a

ragwelir yn cael eu nodi, eu monitro a'u hadolygu.

- Cynllunio ar gyfer cyhoeddi'r ddogfen ar wefan y Bwrdd am o leiaf 12 wythnos ar ôl cwblhau'r broses.
- Cytuno ar y broses o ddosbarthu'r ddogfen i asiantaethau, gwasanaethau perthnasol a gweithwyr proffesiynol.
- Bydd Cadeirydd y Bwrdd yn gyfrifol am wneud pob sylw ac ymateb cyhoeddus i ddiddordeb y cyfryngau yn yr adolygiad nes bod y broses wedi'i chwblhau.

Rhannu Gwybodaeth a Chyfrinachedd

Rhaid cadarnhau perchenogaeth yr holl wybodaeth a dogfennau fel bod modd cael caniatâd priodol y sefydliad perthnasol cyn eu rhannu. Dim ond gwybodaeth sy'n eiddo iddynt neu wedi'i llunio ganddynt y gall sefydliadau ei rhannu.

Dylai'r Panel gadarnhau'r cyfrifoldeb am wneud cais am wybodaeth gan bob sefydliad (gan gynnwys gan ddarparwyr annibynnol) a chytuno arno, fel y bo'n briodol.

Bydd datganiad cyfrinachedd (fel y gwelir isod) yn cael ei lofnodi ym mhob un o gyfarfodydd y Panel gan bawb sy'n bresennol er mwyn ailgadarnhau'r ffiniau ar gyfer rhannu gwybodaeth:

- Wrth weithio â gwybodaeth sensitif mewn perthynas ag Adolygiad Ymarfer Plant, rhaid bod gan bob asiantaeth ffiniau cyfrinachedd y cytunwyd arnynt. Mae'r broses hon yn parchu'r ffiniau cyfrinachedd hynny ac fe'i cynhelir yn unol â dealltwriaeth a rennir:
  - Bod cyfarfod y Panel yn cael ei alw'n unol â chanllawiau '*Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl: Cyfrol 2 – Adolygiadau Ymarfer Plant*' o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant [Cymru] 2014.
  - Yr ystyrir bod unrhyw achos o ddatgelu gwybodaeth y tu allan i'r Panel, y tu hwnt i'r hyn y cytunwyd arno yn y cyfarfod, yn torri cyfrinachedd y gwrthrych ac yn torri cyfrinachedd yr asiantaethau dan sylw.
  - Os teimlir bod cydsyniad i ddatgelu yn hanfodol, y dylid ceisio caniatâd cychwynnol gan Gadeirydd y Panel, ac y bydd penderfyniad yn cael ei wneud ar sail egwyddor 'angen gwybod'.
  - Fodd bynnag, yn y pen draw, cyfrifoldeb Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru yw datgelu gwybodaeth gan y Panel Amlasiantaethol i drydydd parti a rhaid cyfeirio at Reolwr Busnes y Bwrdd i gael awdurdod i ddatgelu.

Atodiad 8

Amlinelliad Cychwynnol Arfaethedig o'r Adolygiad

(Amlinelliad cychwynnol yw hwn y bydd angen ei ddiweddaru wrth i'r adolygiad fynd rhagddo Mae'r ddogfen hon at ddibenion mewnol yn unig ac ni chaiff ei chyhoeddi ynghyd â'r adroddiad)

CYSUR */**** (Ardal a Math o Adolygiad)

- **Arweinydd Diogelu Enwebedig –**
- **Cadeirydd y Panel Adolygu –**
- **Adolygydd Annibynnol** –

Y cyfnod a gwmpesir gan yr adolygiad yn unol â'r canllawiau

0-6 mis	☐	**6-12 mis**	☐

Sail resymegol dros y cyfnod

Mwy na 12 mis	☐
Os yw'n hwy na 12 mis – gan fod hyn y tu hwnt i'r amserlen a argymhellir yn y canllawiau, nodwch y sail resymegol	

Asiantaethau sy'n gysylltiedig â'r achos a adolygir

(*Nodwch enw a dynodiad os ydynt yn hysbys)*

Darparwr gofal	☐		Heddlu	☐	
Tai	☐		Prawf	☐	
Bwrdd Iechyd Lleol	☐		Iechyd Cyhoeddus Cymru	☐	
Ymddiriedolaeth GIG	☐		Gwasanaethau Cymdeithasol	☐	
Bwrdd Diogelu Arall	☐		Trydydd Sector	☐	
Arall (nodwch p'un a yw'n hysbys neu heb ei nodi eto):		☐			

Asiantaeth a nodwyd i Gadeirio'r Panel Adolygu

(*Nodwch enw a dynodiad os ydynt yn hysbys)*

Darparwr gofal	☐		Heddlu	☐	
Tai	☐		Prawf	☐	
Bwrdd Iechyd Lleol	☐		Iechyd Cyhoeddus Cymru	☐	
Ymddiriedolaeth GIG	☐		Gwasanaethau Cymdeithasol	☐	
Bwrdd Diogelu Arall	☐		Trydydd Sector	☐	
Arall (nodwch p'un a yw'n hysbys neu heb ei nodi eto):		☐			

A yw'r Cadeirydd yn annibynnol yn yr ystyr nad yw wedi bod yn gysylltiedig â'r achos nac wedi'i oruchwylio?	Ydy	☐	Nac ydy	☐
Sail resymegol dros ddewis y Cadeirydd:				

Bydd y materion craidd i'w hystyried yng nghylch gorchwyl yr adolygiad yn cynnwys:

- Archwilio gwaith rhyngasiantaethol a darpariaeth gwasanaethau i unigolyn x drwy'r cylch gorchwyl a ddiffiniwyd.
- Ceisio cyfraniadau at yr adolygiad gan yr unigolyn/unigolion ac aelodau priodol o'r teulu a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am agweddau allweddol ar gynnydd.
- Nodi materion penodol i gael eglurhad pellach yn eu cylch.
- Llunio adroddiad ar yr anghenion dysgu i'w gyhoeddi a chynllun gweithredu yn seiliedig ar yr anghenion dysgu hyn.

Rolau a chyfrifoldebau dangosol:

- Bydd yr Arweinydd Diogelu Enwebedig (o ***) yn gyfrifol am gynnal cysylltiadau â phob asiantaeth berthnasol, y teuluoedd a buddiannau eraill.
- Bydd Uned Fusnes y Bwrdd yn hwyluso'r Panel Adolygu cyntaf a'r Gronoleg.
- Yr Awdurdod Lleol sy'n arwain yr Adolygiad hwn fydd yn gyfrifol am hwyluso a gweinyddu pob Panel arall a gweddill y broses Adolygu.
- Bydd Cadeirydd y *Panel Adolygu* yn rhoi gwybod i Gadeirydd y Bwrdd ac is-grŵp y Bwrdd am newidiadau sylweddol i gwmpas yr adolygiad a bydd y cylch gorchwyl yn cael ei ddiweddaru'n unol â hynny.
- Bydd Cadeirydd y Bwrdd yn gyfrifol am wneud pob sylw ac ymateb cyhoeddus i ddiddordeb y cyfryngau yn yr adolygiad nes bod y broses wedi'i chwblhau. Rhagwelir na fydd unrhyw wybodaeth yn cael ei datgelu i'r cyhoedd ar wahân i Adroddiad Terfynol y Bwrdd.
- Bydd y Bwrdd a'r *Panel Adolygu* yn ceisio cyngor cyfreithiol ar bob mater sy'n ymwneud â'r adolygiad. Yn benodol, bydd hyn yn cynnwys cyngor ar y canlynol:
    - y cylch gorchwyl;
    - datgelu gwybodaeth;
    - canllawiau i'r *Panel Adolygu* ar faterion yn ymwneud â chyfweld aelodau unigol o staff.

Penodi Adolygydd sy'n Annibynnol ar y Gwaith o Reoli'r Achos

A fydd adolygydd annibynnol yn cael ei benodi?	Bydd	☐	Na fydd	☐
A yw enw a dynodiad yr adolygydd annibynnol yn hysbys?	Ydy	☐	Nac ydy	☐
*Os **ydy**, nodwch ddynodiad enwebedig yr adolygydd annibynnol yn ogystal ag unrhyw wybodaeth ychwanegol):*				

Adolygiad sy'n Annibynnol ar y Gwaith o Reoli'r Achos – Adolygiad Estynedig YN UNIG

Yn achos adolygiad estynedig, eir i'r afael â'r cwestiynau craidd canlynol yn unol â'r canllawiau gan yr adolygwyr yng Nghylch Gorchwyl yr Adolygiad.

- P'un a oedd hanes neu wybodaeth berthnasol flaenorol am y plentyn a/neu aelodau o'r teulu yn hysbys ac wedi'i hystyried wrth i weithwyr proffesiynol asesu, cynllunio a gwneud penderfyniadau mewn perthynas â'r plentyn, y teulu a'u hamgylchiadau. Sut y cyfrannodd y wybodaeth honno at y canlyniad i'r plentyn?
- P'un a oedd y cynllun amddiffyn plentyn (a/neu'r cynllun plentyn sy'n derbyn gofal neu'r cynllun llwybr) yn gadarn ac yn briodol ar gyfer y plentyn hwnnw a'i amgylchiadau.
- Effeithiolrwydd y gwaith cynllunio pontio (fel y bo'n briodol)
- P'un a gafodd y cynllun ei roi ar waith, ei fonitro a'i adolygu'n effeithiol. A wnaeth pob asiantaeth gyfrannu'n briodol at y gwaith o ddatblygu a chyflawni'r cynllun amlasiantaethol?
- Pa agweddau ar y cynllun a weithiodd yn dda, beth na weithiodd yn dda a pham? I ba raddau y cafodd asiantaethau eu dwyn i gyfrif mewn perthynas ag effeithiolrwydd y cynllun, gan gynnwys cynnydd yn erbyn canlyniadau y cytunwyd arnynt ar gyfer y plentyn. P'un a gafodd y protocol ar gyfer datrys anghydfod ei ddefnyddio.
- P'un a gafodd priod ddyletswyddau statudol yr asiantaethau a oedd yn gweithio gyda'r plentyn a'r teulu eu cyflawni.
- P'un a oedd rhwystrau neu anawsterau yn yr achos hwn a rwystrodd asiantaethau rhag cyflawni eu dyletswyddau (dylai hyn gynnwys ystyried materion sefydliadol a materion cyd-destunol eraill).

Gall y *Panel Adolygu* a/neu'r adolygwyr hefyd nodi materion perthnasol pellach mewn perthynas ag amgylchiadau'r achos.

Unrhyw gwestiynau penodol ychwanegol y mae'n briodol eu codi ar y cam hwn?

Amcangyfrif o gost (os yw'n hysbys) yr adolygydd annibynnol a sut y caiff ei thalu	£ ……
Costau ychwanegol a nodwyd (os ydynt yn hysbys). Nodwch:	£ ……
Dyddiad cyfarfod cyntaf y Panel Adolygu	……

A fydd yr adroddiad yn cael ei gwblhau o fewn amserlen y Canllawiau? *h.y. o fewn chwe mis i ddyddiad yr atgyfeiriad*	Bydd	☐	Na fydd	☐
Nodwch unrhyw faterion a all effeithio ar yr amserlen a sut y caiff y rhain eu rheoli:- *Dylech gynnwys materion fel:- erlyniad troseddol / penderfyniad crwner*				

Y dyddiad y rhagwelir y caiff yr adroddiad ei gwblhau	……